Y Grŵp Trawsbleidiol ar Gymru Ryngwladol

Dydd Mawrth 15 Hydref 2019

12:00 – 13:30

Yn bresennol:

Rhun ap Iorwerth AC (Cadeirydd)
Eluned Morgan AC, Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol (llefarydd)
Huw Irranca-Davies AC
David Rees AC, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol
Carwyn Jones AC

Ioan Bellin, swyddfa Helen Mary Jones AC
Heledd Roberts, swyddfa Rhun ap Iorwerth AC
Curtis Shea, swyddfa Darren Millar AC
Enfys Roberts, Rheolwr, Swyddfa Breifat y Llywydd (Cysylltiadau Rhyngwladol a Chyfathrebu)
Rhys Davies, Swyddog Ymchwil

Jenny Scott, Cyfarwyddwr, British Council Cymru
Rebecca Gould, Pennaeth Celfyddydau, British Council Cymru
Rose Bickerton, Rheolwr Cyfathrebu a Chysylltiadau Allanol, British Council Cymru

Eluned Haf, Cyfarwyddwr, Celfyddydau Rhyngwladol Cymru
Sian Lewis, Prif Weithredwr, Urdd Gobaith Cymru
Mali Thomas, Partneriaethau Rhyngwladol, Urdd Gobaith Cymru
Martin Pollard, Prif Weithredwr, Cymdeithas Ddysgedig Cymru
Sara Stevens, Prifysgolion Cymru
Tracey Marenghi, Prifysgolion Cymru
Mary Kent, Is-Bennaeth Datblygu Busnes Masnachol, Coleg Caerdydd a'r Fro
Catherine Paskell, Cyfarwyddwr Celfyddydol, Dirty Protest Theatre
Denise Hanrahan, Prif Gonswl, Swyddfa Conswl Iwerddon
Claire O'Shea, Pennaeth Partneriaeth, Hub Cymru Affrica
Susie Ventris-Field, Prif Weithredwr, Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru
Emily Daly, Ymgynghorydd Addysg, Cyngor Caerdydd
Alison Woods, Prif Weithredwr, NoFit State

1. Croeso gan y Cadeirydd
Croesawodd y Cadeirydd bawb ac agorodd y sesiwn, yn gofyn am gwestiynau a sylwadau ar fersiwn ddrafft y Strategaeth Ryngwladol.

2. Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

Etholwyd Rhun ap Iorwerth fel Cadeirydd a chytunwyd y byddai'r Cyngor Prydeinig yn gweithredu fel ysgrifenyddiaeth.

3. Sylwadau ar y strategaeth ryngwladol gan Carwyn Jones AC

Rhoddodd Carwyn Jones drosolwg o'r strwythurau a oedd mewn lle cyn creu'r portffolio gweinidogol Cysylltiadau Rhyngwladol, gan nodi nad yw drysau yn agor mor hawdd i swyddogion â Gweinidogion yn rhyngwladol. Pwysleisiodd bwysigrwydd o Weinidogion yn mynd allan yn rhyngwladol er mwyn cysylltu â lefelau uchaf Llywodraethau tramor.

Siaradodd am ehangu swyddfeydd Llywodraeth Cymru yn rhyngwladol: yr UDA, Ewrop, y Dwyrain Canol, Tsieina. Dywedodd Carwyn Jones mai prif gylch gwaith swyddfeydd Llywodraeth Cymru dramor oedd denu buddsoddiad i mewn, ond erbyn hyn mae ganddyn nhw ddiddordeb a mandad mwy gweithredol mewn masnach a diwylliant.

Dywedodd fod Cymru wedi gweithio ar y cyd â Llysgenadaethau Prydain yn bennaf, gan ei fod wedi ein galluogi ni i rannu gwybodaeth ac adnoddau, ac osgoi dyblygu a gwastraff.

Dywedodd Carwyn Jones fod gan yr Alban ddeg gwaith nifer o swyddogion Cymru dramor.

Dywedodd Susie Ventris-Field fod y strategaeth newydd hon yn edrych i fynd y tu hwnt i fasnach. Ymatebodd Carwyn eu bod yn edrych yn fwyfwy ar ddylanwad a phŵer meddal.

4. Sylwadau ar y strategaeth ryngwladol gan Eluned Morgan AC

Rhoddodd Eluned Morgan drosolwg o’r Strategaeth Ryngwladol, gan nodi ehangiad y swyddfeydd tramor ac ymatebolrwydd Llywodraethau Cymru i Brexit, a arweiniodd at agor mwy o swyddfeydd yn Ewrop.

Ailadroddodd pa mor bwysig yw'r cyd-destun rhyngwladol i Gymru - fel modd o gynyddu ein cyfoeth a chreu dinasyddion y byd. Nododd bwysigrwydd pobl yn bwydo i mewn i'r strategaeth i helpu i rannu'r neges.

Nododd Eluned Morgan anhawster drafftio Strategaeth Ryngwladol mewn cyfnod o ansicrwydd gwleidyddol, gan ddweud ei bod yn anodd bod yn glir ynghylch yr hyn y mae Cymru eisiau ei gyflawni pan fydd y cyd-destun mor aneglur.

Nododd Eluned Morgan mai un o'r pethau maen nhw am ei wneud yw gweithio gyda'r celfyddydau, a mapio pwy o'r sector sy'n teithio ble - felly gall Llywodraeth Cymru roi'r negeseuon y mae Cymru eisiau eu rhannu i'r cwmnïau hynny, a helpu i ehangu eu hymweliadau er mwyn sicrhau eu bod yn manteisio i'r eithaf o'r daith.

Ailadroddodd Eluned y gall y diaspora fynd â neges Cymru i lefydd lle na all y Llywodraeth fynd, i hyrwyddo Cymru ac agor drysau. Fodd bynnag, mae angen cyfathrebu clir ac eglurder neges er mwyn cyflawni hyn.

Siaradodd Eluned Morgan am yr angen i dorri trwodd mewn marchnad ddirlawn. Mae angen sicrhau bod amcanion Llywodraeth Cymru, a'r sectorau rydyn ni'n eu cefnogi, yn gallu: 1) ymateb i Brexit; 2) datblygu a thyfu 3) ymgysylltu â'r Cynllun Gweithredu Economaidd a'r Fargen Ddinesig 4) darparu arweinyddiaeth fyd-eang wirioneddol yn y sector.

5. Holi ac Ateb ar y strategaeth ryngwladol

Gofynnodd Alison Woods i Eluned Morgan ai adnabod sectorau i ganolbwyntio arnynt yw'r syniad cywir, o ystyried yr angen i fod yn hyblyg ac ymatebol i amgylchiadau sy'n newid?

Gofynnodd Sian Lewis sut ydym ni'n sicrhau bod y strategaeth yn gweithio i bobl ifanc?

Ymatebodd Eluned Morgan fod Llywodraeth Cymru yn newid y cwricwlwm i sicrhau bod rhyngwladoliaeth a dinasyddiaeth fyd-eang yn rhan annatod.

Gofynnodd Emily Daly beth fyddem ni'n ei wneud i leihau'r niwed i addysg yng Nghymru?

Ymatebodd Eluned Morgan nad yw Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r DU yn gadael rhaglen Erasmus +. Mae cyllid o gronfa bontio'r UE sy'n cynnal cysylltiadau addysgol â Llydaw, ac yn helpu i gadw'r drws ar agor yn y cyfamser.

Gofynnodd Mary Kent i ba raddau y mae angen i bobl Cymru ymgysylltu â'r strategaeth hon yn nhermau rhyngwladoliaeth?

Ymatebodd Eluned Morgan fod y cwricwlwm newydd yn ffordd i annog pobl i deimlo eu bod yn ddinasyddion y byd, nid Cymru. Dywedodd na fydd y strategaeth yn gweithio oni bai bod Llywodraeth Cymru yn cael cefnogaeth y bobl yn yr ystafell hon ac eraill, fel grŵp o sefydliadau rhyngwladol sy'n teithio ar draws y byd - maent yn hanfodol i rannu neges Cymru. Soniodd Eluned Morgan hefyd fod Llywodraeth Cymru yn cynllunio digwyddiad i ddathlu’r cymunedau diaspora rhyngwladol sy’n byw yng Nghymru.

Dywedodd Susie Ventris-Field fod cymysgedd o elfennau ac amcanion tymor hir a thymor byr yn y strategaeth. Gofynnodd a yw'n werth edrych ar ble rydym ni am fod mewn 20 mlynedd a gweithio tuag at hynny, yn dibynnu ar bwy rydych chi'n eu gweld fel cynulleidfa ar gyfer yr adroddiad?

Ymatebodd Eluned Morgan fod yna wahanol gynulleidfaoedd ar gyfer gwahanol rannau o'r strategaeth. Mae'n anelu at gynulleidfa gyffredinol yn lledaenu neges ryngwladol, ond hefyd mae'n canolbwyntio ar elfennau penodol, yn enwedig o ran allforio. Ailadroddodd Eluned deimladau Carwyn Jones bod angen i ni ganolbwyntio ar allforio yn hytrach na mewnfuddsoddi ar hyn o bryd. Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar sectorau lle mae Cymru yn arwain y byd. Ailadroddodd fod angen iddo fod yn gredadwy i gael effaith.

Dywedodd Martin Pollard fod angen lledaenu ymwybyddiaeth ryngwladol ar draws Llywodraeth Cymru.

Dywedodd Rebecca Gould fod llawer iawn o arbenigedd yn yr ystafell, a bod y sectorau yn fodlon i chwarae rôl yn hyrwyddo Cymru. Gofynnodd hi a oes modd cynnwys rhywbeth yn y strategaeth sy'n amlinellu sut y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda sefydliadau a strwythurau'r DU sydd eisoes yn bodoli i hyrwyddo cysylltiadau diwylliannol, masnach ac ati? Mae hi'n poeni bod Cymru yn dyblygu gwaith ac yn defnyddio adnoddau pan nad oes angen.

Ymatebodd Eluned y byddai hi wedi cynnwys dangosyddion perfformiad allweddol yn yr adroddiad, ond nid yw hyn yn bosibl gydag ansicrwydd y sefyllfa bresennol. Ychwanegodd fod yr adroddiad yn draws-Lywodraethol ac mae pob adran wedi cymryd rhan yn y broses ysgrifennu ac ymchwil.

Gadawodd Eluned Morgan a'r Cadeirydd, Rhun ap Iorwerth, y cyfarfod. Gofynnodd y Cadeirydd i Jenny Scott a Heledd Roberts wneud nodyn o gwestiynau eraill gan y gwesteion, a byddai fe'n eu hanfon nhw ymlaen at Eluned Morgan mewn llythyr.

6. Cwestiynau gan y grŵp

Codwyd ystod o gwestiynau a sylwadau gan gynnwys:

Ewrop

- Nid yw Ewrop yn dod allan o'r strategaeth yn ddigon cryf o ystyried y brys i greu cysylltiadau (gan fod cymaint o ffocws ar lobïo gwleidyddol Llywodraeth y DU).
- A oes modd i ehangu swyddfa Brwsel?
- Sut fydd ysgolion a phobl ifanc yn cael eu cefnogi ar ôl Brexit - yn enwedig gyda chysylltiadau â'r UE?
- A allai fod strategaeth lliniaru Brexit sy'n nodi atebion tymor byr ar gyfer sectorau a gaiff eu heffeithio gan Brexit, er mwyn caniatáu i'r sector ehangach gefnogi'r strategaeth?

Cymru Gyfrifol yn Fyd-eang

- A allai fod nod o ran cryfhau Cymru fel partner - neu a ellid cynnwys hyn yn un o'r nodau?
- Mae angen teimlo'r syniad o fod yn 'gyfrifol yn fyd-eang' trwy'r strategaeth gyfan. Ar hyn o bryd mae'n cael ei nodi fel nod ac yna'n cael ei wrth-ddweud gan rai syniadau (e.e. seiberddiogelwch sy'n gyffredin yn y diwydiant arfau).

- Pryder y bydd sectorau allforio eraill nad ydynt yn rhan o'r strategaeth (ac ar hyn o bryd yn darparu'r mwyafrif o allforion Cymru) yn teimlo eu bod yn cael eu gadael ar ôl, heb eu cydnabod a'u cefnogi.
- A oes modd dewis ac edrych ar feysydd rhagoriaeth eraill, a nodwyd yn adroddiadau blaenorol Llywodraeth Cymru?
- Mae teimlad nad yw'r perthnasoedd a'r llwyddiannau presennol yn cael eu cydnabod. A ellid gwneud hyn heb danseilio'r weledigaeth ar gyfer y dyfodol?

- Mae anelu'r ddogfen at gynulleidfaoedd gwahanol yn broblemus; mae angen un gynulleidfa yn unig er mwyn cael effaith.
- Mae'r gweithredoedd cyfredol o raddfeydd gwahanol iawn. A oes modd eu cysoni? Ar hyn o bryd maent yn amrywio rhwng y tymor byr, y tymor hir, gweithredoedd bach a mawr, ac ati.

- Mae'r gwahanol sectorau yn awyddus i gefnogi'r Gweinidog i ddatblygu'r ddogfen, er enghraifft trwy roi enghreifftiau a allai helpu i gefnogi'r amcanion.